# BWRDD GWEITHREDOL

## DYDD LLUN, 13EG MAI, 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole [Cadeirydd]

**Y Cynghorwyr:**
G. Davies, H.A.L. Evans, L.D. Evans, P.M. Hughes, P. Hughes-Griffiths, D.M. Jenkins, L.M. Stephens a J. Tremlett

**Hefyd yn bresennol fel sylwedyddion:**
Y Cynghorwyr D.M. Cundy, J.S. Edmunds a J.D. James.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

| | | |
|---|---|---|
| Mr M. James | - | Prif Weithredwr |
| Mr C. Moore | - | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| Mr J. Morgan | - | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedau |
| Mr G. Morgans | - | Cyfarwddwr Addysg a Phlant |
| Ms R. Mullen | - | Cyfarwyddwr yr Amgylchedd |
| Ms W. Walters | - | Cyfarwyddwr Adfywio a Pholisi |
| Mr S. Davies | - | Pennaeth Mynediad i Addysg |
| Ms L. Rees Jones | - | Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith |
| Ms D. Hockenhull | - | Rheolwr y Cyfryngau a Marchnata |
| Mr J. Jones | - | Rheolwr Eddio a Phrosiectau Mawr |
| Mrs M. Evans Thomas | - | Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin : 10.00 yb - 11.10 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd C.A. Campbell.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| E. Dole | 11 - Gwared Tir â Risgiau Cysylltiedig | Ei eiddo yn ffinio ag un o'r safleoedd a nodwyd. |

## 3. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

## 4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 5. SAFONAU LLYFRGELLOEDD CYHOEDDUS CYMRU 2017-2020

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i adroddiad ynghylch Asesiad Blynyddol Gwasanaethau Llyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin 2017/18, a luniwyd yn unol â

gofynion Deddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964, a osododd ddyletswydd statudol ar yr holl Awdurdodau Llyfrgelloedd Cyhoeddus i 'ddarparu gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithiol' ac ar Weinidogion Cymru i 'oruchwylio a hyrwyddo'r gwaith o wella' gwasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru.

Yn unol â'r gofynion hyn, roedd Llywodraeth Cymru wedi cwblhau ei hasesiad o Wasanaeth Llyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2017/18.

Roedd yn braf gweld bod Sir Gaerfyrddin yn bodloni pob un o'r 12 o hawliau craidd yn llawn, ac o'r deg dangosydd ansawdd oedd â thargedau, roedd Sir Gaerfyrddin wedi cyflawni naw yn llawn ac un yn rhannol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

## 6. RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG CYNNIG I NEWID NATUR Y DDARPARIAETH YN YSGOL RHYS PRITCHARD

Ystyriodd y Bwrdd gynnig i newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol Rhys Pritchard yn Llanymddyfri.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth ar gyfer Sir Gâr ddwyieithog, fel y nodwyd yng Nghynlluniau Strategol Llywodraeth Cymru a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin, bydd angen i'r Awdurdod sicrhau twf sylweddol mewn addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn cynyddu nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Er mwyn gallu cynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, un o amcanion yr Awdurdod yw cynorthwyo ein hysgolion dwy ffrwd a thrawsnewidiol i ddod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Oherwydd y galw cynyddol am leoedd addysg cyfrwng Cymraeg yn ardal Llanymddyfri, cynigiwyd, o 1 Ionawr 2020 ymlaen, fod natur y ddarpariaeth yn Ysgol Rhys Pritchard yn newid i gyfrwng y Gymraeg.

Bydd y cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynnig yn dechrau ar 20 Mai 2019 ac yn dod i ben ar 30 Mehefin 2019.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**6.1 bod y cynnig i newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol Rhys Pritchard, fel y manylir arno yn yr adroddiad, yn cael ei gymeradwyo;**
**6.2. bod swyddogion yn cychwyn ymgynghoriad ffurfiol ynghylch y cynnig yn ystod tymor yr haf 2019;**
**6.3. bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol i'w ystyried ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori statudol.**

## 7. RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG CYNNIG I NEWID NATUR Y DDARPARIAETH YN YSGOL Y DDWYLAN, YSGOL GRIFFITH JONES, YSGOL LLANGYNNWR AC YSGOL LLYS HYWEL

Ystyriodd y Bwrdd gynnig i newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol y Ddwylan, Ysgol Griffith Jones, Ysgol Llangynnwr ac Ysgol Llys Hywel.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth ar gyfer Sir Gâr ddwyieithog, fel y nodwyd yng Nghynlluniau Strategol Llywodraeth Cymru a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin, bydd angen i'r Awdurdod sicrhau twf sylweddol mewn addysg cyfrwng Cymraeg er mwyn cynyddu nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Er mwyn gallu cynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg, un o amcanion yr Awdurdod yw cynorthwyo ein hysgolion dwy ffrwd a thrawsnewidiol i ddod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Cynigwyd felly, i newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol y Ddwylan, Ysgol Griffith Jones, Ysgol Llangynnwr ac Ysgol Llys Hywel i gyfrwng y Gymraeg gyda'r dewis o gyfrwng iaith yn cael ei gyflwyno yng Nghyfnod Allweddol 2, o 1 Medi 2020 ymlaen.

Bydd y cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynnig yn dechrau ar 20 Mai 2019 ac yn dod i ben ar 30 Mehefin 2019.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**7.1 bod y cynnig i newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol y Ddwylan, Ysgol Griffith Jones, Ysgol Llangynnwr ac Ysgol Llys Hywel, fel y manylir arno yr adroddiad, yn cael ei gymeradwyo;**

**7.2. bod swyddogion yn cychwyn ymgynghoriad ffurfiol ynghylch y cynnig yn ystod tymor yr haf 2019;**

**7.3. bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol i'w ystyried ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori statudol.**

## 8. BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE

Ystyriodd y Bwrdd adroddiad yn rhoi manylion am ganfyddiadau a goblygiadau'r adolygiadau diweddar a gynhaliwyd mewn perthynas â Bargen Ddinesig Bae Abertawe.

Ym mis Rhagfyr 2018 cyhoeddodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru y byddai adolygiad annibynnol yn cael ei gynnal ynghylch Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Yn ogystal, penderfynodd Cyd-bwyllgor Bae Abertawe, yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr 2018, y byddai adolygiad mewnol i drefniadau llywodraethu Bargen Ddinesig Bae Abertawe hefyd yn cael ei gynnal ochr yn ochr ag Adolygiad Annibynnol Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Cytunwyd y byddai Cyngor Sir Penfro yn arwain yr Adolygiad Mewnol, ac yn cael ei gefnogi gan Uwch-archwilydd a enwebwyd o Gynghorau Sir Caerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

Roedd Cyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Bae Abertawe wedi ystyried a derbyn yn ffurfiol ganfyddiadau adolygiadau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a'r Cyd-bwyllgor Mewnol yn ei gyfarfod ar 26 Mawrth, 2019. Roedd Bwrdd y Rhaglen wedi cael y dasg o ddatblygu cynllun gweithredu i symud yr argymhellion yn eu blaenau ac adrodd yn ôl i'r Cyd-bwyllgor nesaf a oedd i'w gynnal ar 28 Mai 2019.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**8.1 bod Adolygiad Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ac Adolygiad Cyd-bwyllgor Bae Abertawe yn cael eu derbyn;**

8.2 **parhau i adolygu cynnydd mewn perthynas â Bargen Ddinesig Bae Abertawe;**

8.3 **dirprwyo i'r Arweinydd, ar y cyd â'r Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151, yr awdurdod i gytuno ar newidiadau, lle ystyrir bo hynny'n briodol, i Gytundeb y Cyd-bwyllgor yn unol ag argymhellion yr adolygiadau. Ni fyddai'r newidiadau yn berthnasol i unrhyw newid perthnasol i rwymedigaethau cyfreithiol ac ariannol y Cyngor o dan Gytundeb y Cyd-bwyllgor, oherwydd caiff materion o'r fath eu cadw i'r aelodau benderfynu yn eu cylch.**

## 9. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

## 10. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 11. GWAREDU TIR Â RISGIAU CYSYLLTIEDIG

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 10 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat, gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod oherwydd byddai datgelu cynnwys yr adroddiad hwn yn gwanhau sefyllfa'r Awdurdod mewn trafodaethau â darpar brynwyr ac o bosibl yn arwain at lai o dderbyniadau cyfalaf i gyllid cyhoeddus nag a fyddai'n digwydd fel arall. Felly roedd budd y cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu cynnwys yr adroddiad.**

[NODER: Roedd y Cynghorydd E. Dole wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Rhoddodd y Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad a oedd yn manylu ar y cynigion oedd wedi dod i law am safleoedd diangen sydd â risgiau posibl a chostau cynnal a chadw uchel sy'n gysylltiedig â defnyddiau blaenorol a phresennol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y 9 safle a nodwyd yn cael eu gwerthu yn unol â'r argymhellion fel y manylir yn yr adroddiad.**

## 12. TIR DATBLYGU, TROSTRE, LLANELLI

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng Nghofnod 10 uchod, ystyried y mater hwn yn breifat gan orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod oherwydd byddai datgelu cynnwys yr adroddiad hwn yn anfantais faterol i'r**

**Awdurdod mewn unrhyw drafodaethau dilynol â thrydydd partïon, a gallai cael effaith niweidiol ar y pwrs cyhoeddus. Felly roedd budd y cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu cynnwys yr adroddiad.**

Ystyriodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad yn manylu ar gynigion a oedd wedi dod i law am 3 llain o dir datblygu yn Nhrostre.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**12.1 bod llain 1 yn cael ei waredu yn unol ag opsiwn D, fel y manylir arno yn yr adroddiad;**
**12.2 parhau i farchnata lleiniau 2 a 3.**

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**